## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

**Dyddiad:** Dydd Mercher 20 Mehefin 2007
**Amser:** 9.30 -12.00
**Lleoliad:** Ystafell gynadledda 22

# AGENDA

### 1. GWEITHIO CORFFORAETHOL FEL COMISIWN

- **Egwyddorion cyffredin ar gyfer sut y cydweithiwn**

Gwahoddwyd y Comisiwn i gytuno i'r egwyddorion hyn.
**Papur 1A**

- **Egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol a darpariaethau ategol**

Ar 7 Tachwedd 2006 cyflwynodd Ian Summers bapur ar Lywodraethu Corfforaethol i'r Comisiwn Cysgodol. Gofynnir i Gomisiwn y Cynulliad fabwysiadu'r egwyddorion a'r darpariaethau ategol a gynhwysir yn y papur, a addaswyd dim ond er mwyn ystyried y strwythur y mae'r Prif Weithredwr yn ei sefydlu yn awr.
**Papur 1B**

### 2. BLAENORIAETHAU'R COMISIWN AR GYFER Y CHWE MIS CYNTAF

- Ceisir barn Comisiwn y Cynulliad ar y materion i'w hystyried gan y sefydliad newydd a awgrymir, gan gynnwys dyrannu cyfrifoldebau'r portffolio.
  **Papur 2A**

### 3. GWEITHDREFNAU AR GYFER SUT Y CAIFF CYFARFODYDD COMISIWN Y CYNULLIAD EU CYNNAL YN Y DYFODOL

- Cytunodd Comisiwn y Cynulliad eisoes ar y gweithdrefnau ar gyfer sut y caiff cyfarfodydd y Comisiwn Cysgodol eu cynnal yn y dyfodol, a ddarparwyd gan Ian Summers. Diwygiwyd y rhain dim ond er mwyn ystyried strwythur y sefydliad sy'n cael ei sefydlu yn awr gan y Prif Weithredwr. Gwahoddir y Comisiwn i fabwysiadu'r gweithdrefnau hyn yn ffurfiol er mwyn eu defnyddio ar unwaith.
  **Papur 3A**

## 4. GWEITHREDU SWYDDOGAETHAU

- Wrth ddisgwyl penodi'r Comisiynwyr, cytunodd y Llywydd ar yr offerynnau dirprwyo er mwyn hwyluso sut y caiff y Comisiwn ei weithredu a'i reoli o'r diwrnod yr ymgymerodd â'i swyddogaethau. Gwahoddir y Comisiwn i gadarnhau'r ddau offeryn fel y'u harwyddwyd gan y Llywydd.
  **Papur 4A**

## 5. CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

- Ar 3 Hydref 2006, cyflwynodd Ian Summers bapur ar Lywodraethu Corfforaethol i'r Comisiwn Cysgodol, oedd yn cynnwys y cylch gorchwyl ar gyfer Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Comisiwn. Gofynnir i Gomisiwn y Cynulliad gymeradwyo'r cylch gorchwyl a gynigir. Addaswyd y papur gryn dipyn i adlewyrchu arddull newydd cylch gorchwyl o'r fath fel y nodir yn llawlyfr diwygiedig y Pwyllgor Archwilio a gyhoeddwyd ym mis Mai 2007. Fodd bynnag, nid oes llawer o'r sylwedd wedi newid.
  **Papur 5A**

## 6. CYFARWYDDYD COMISIWN Y CYNULLIAD AR GYFER FFORMAT A CHYNNWYS PAPURAU

- Mae'r Uned Gorfforaethol wedi drafftio cyfarwyddyd ar gyfer fformat a chynnwys papurau i'w cyflwyno i Gomisiwn y Cynulliad. Cymeradwywyd hyn gan y Bwrdd Gweithredu. Gofynnir am farn Comisiwn y Cynulliad ar y cyfarwyddyd hwn.
  **Papur 6A**

## 7. POLISÏAU COMISIWN Y CYNULLIAD

- Cytunodd y Comisiwn Cysgodol ar nifer o bolisïau eisoes (atodiadau 1-6). Addaswyd rhai ohonynt, ond dim ond er mwyn ystyried y strwythur newydd y mae'r Prif Weithredwr yn ei sefydlu. Ystyriwyd atodiadau 7 ac 8 gan y Bwrdd Gweithredol a chytunwyd arnynt yn ei gyfarfod ar 11 Mehefin 2007. Gwahoddir y Comisiwn i gymeradwyo'r polisïau hyn yn ffurfiol.
  **Papur 7A**